
Gwahoddiad i Dendro ar gyfer darparu, gweithredu a chefnogi System Rheoli Darlledu (SRhD) gwbl integredig

Gweithdrefn hyblyg gystadleuol yn unol â Deddf Caffael 2023

Amserlen Gaffael

Dyddiadau ac amseroedd	Gweithgaredd caffael
20/03/26	Cyhoeddi Gwahoddiad i Dendro i Gynigyddion
12:00 ar 02/04/26	Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cwestiynau eglurhad
12:00 ar 28/04/26	Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Ymatebion Tendr
28/04/26 i 19/05/26	Gwerthuso Ymatebion Tendr
19/05/26 i 16/06/26	Gellir gwahodd y tri chynigydd sydd â'r sgôr uchaf i gymryd rhan mewn cyfweiliadau a/neu arddangosiadau i S4C
16/06/26	Amcangyfrif o ddyddiad ar gyfer cyhoeddi crynodebau asesu i bob Cynigydd
16/06/26	Amcangyfrif o ddyddiad ar gyfer cyhoeddi hysbysiad dyfarnu contract
16/06/26 i 25/06/26	Amcangyfrif o ddyddiad ar gyfer y cyfnod segur
21/07/26	Amcangyfrif o ddyddiad ar gyfer ymrwymo i'r contract
24/07/26	Amcangyfrif o ddyddiad ar gyfer cyhoeddi hysbysiad manylion y contract

(Gweler hefyd Adran 7)

CYNNWYS

1	Y Gwahoddiad i Dendro hwn	1
2	Cyflwyniad i S4C	1
3	Diffiniadau	2
4	Trosolwg o ofyniad S4C	5
5	Manylion y contract.....	6
6	Ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad	8
7	Y Broses Gaffael.....	8
8	Telerau'r contract	9
9	Cyfathrebu ynglŷn â'r Caffael.....	11
10	Ceisiadau am eglurhad	11
11	Sut i ymateb i'r GiD hwn.....	12
12	Yr hyn y mae'n ofynnol i Gynigyddion ei gyflwyno yn rhan o'u Hymateb Tendr ...	12
13	Cyfweliadau ac arddangosiadau	16
14	Meini prawf dyfarnu	16
15	Eglurhad o Ymatebion Tendr.....	17
16	Y broses asesu Ymateb Tendr	18
	Appendix A Telerau ac amodau caffael.....	28
	Appendix B Gofynion S4C	37
	Appendix C Telerau ac amodau Contract drafft.....	47
	Appendix D Porth Comisiynu a Syniadau CWMWL	48
	Appendix E PAC: Porth Dogfennau Rhaglenni Gorffenedig	61
	Appendix F Map trywydd cynigyddion a chanllaw cyflwyno – sut i ymateb i'r GiD hwn	73
	Appendix G Dogfennau Ymateb Tendr.....	76

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb i'r Gwahoddiad i Dendro hwn yw **12:00, 28/04/2026**. Rhaid i gynigyddion sicrhau bod eu Hymateb Tendr wedi'i gwblhau yn cael ei gyflwyno cyn y dyddiad cau hwnnw. Gellir gwrthod unrhyw gyflwyniadau hwyr.

Gweler paragraffau 7 (Y Broses Gaffael) a 11 (Sut i ymateb i'r GiD) o'r Gwahoddiad i Dendro hwn yn benodol am ragor o wybodaeth.

Darllenwch y Gwahoddiad i Dendro hwn yn ofalus. Ni chaiff Ymatebion Tendr nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y Gwahoddiad i Dendro hwn eu gwerthuso yn rhan o'r Caffael hwn.

1 Y GWAHODDIAD I DENDRO HWN

- 1.1 Cynhelir y Caffael hwn yn unol â'r Ddeddf gan ddefnyddio'r Weithdrefn Hyblyg Gystadleuol.
- 1.2 Mae'r GiD hwn yn disgrifio sut y bydd y Caffael yn cael ei gynnal, gan gynnwys manylion yr Amserlen Gaffael gysylltiedig, meini prawf dyfarnu a sut i ymateb i'r cyfle hwn. Anogir cynigyddion yn gryf i ddarllen y ddogfen hon cyn paratoi eu Hymateb Tendr.
- 1.3 Darllenwch y ddogfen hon yn ofalus, oherwydd os na fyddwch yn cydymffurfio â hi gallech gael eich gwahardd o'r Caffael a/neu gellid gwrthod unrhyw Ymateb Tendr gennych.
- 1.4 Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r Hysbysiad Tendr ac unrhyw ddogfennau Caffael eraill sydd ar gael yn y cam hwn o'r Caffael.
- 1.5 Mae S4C yn cadw'r hawl i gyhoeddi fersiynau wedi'u diweddarau o'r ddogfen hon i Gynigyddion yn ôl yr angen, er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r Caffael neu unrhyw wybodaeth newydd arall.
- 1.6 Darllenwch y telerau ac amodau Caffael a gynhwysir yn 0 (Telerau ac amodau caffael) a sicrhewch y cydymffurfir â hwy.

2 CYFLWYNIAD I S4C

- 2.1 Mae S4C yn cynnal proses dendro ar gyfer darparu, gweithredu a chefnogi System Rheoli Darlledu gwbl integredig ("**SRhD**" neu'r "**Gwasanaethau**") am gyfnod o ddeng (10) mlynedd gydag opsiwn i estyn y contract am ddwy (2) flynedd arall (y "**Contract**").
- 2.2 S4C yw'r sianel deledu Gymraeg ac mae'n un o bum sefydliad cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus y DU. Dyma'r unig sefydliad cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg.

Mae'n awdurdod darlledu annibynnol a sefydlwyd o dan Ddeddf Darlledu 1981 a chaiff ei reoleiddio gan Ddeddf Cyfathrebu 2003 a Deddf Darlledu 1990.

- 2.3 Cynhelir y Caffael hwn gan y Gyfarwyddiaeth Technoleg Darlledu o fewn S4C. Mae'r Gyfarwyddiaeth Technoleg Darlledu yn gyfrifol am gefnogi'r Dechnoleg TG y mae S4C yn ei defnyddio ar gyfer Darlledu a menter.
- 2.4 Am ragor o wybodaeth gefndir am S4C, trowch at Adroddiad Blynyddol 2024/25, sydd ar gael ar wefan S4C (s4c.cymru) neu drwy gysylltu â Gwifren Gwylwyr:

Ffôn: 0870 600 4141

gwifren@s4c.cymru

3 DIFFINIADAU

- 3.1 Bydd gan y termau ac ymadroddion cyffredin yr ystyron canlynol wedi'u priodoli iddynt:

Term diffiniedig	Diffiniad
Deddf	yn golygu Deddf Caffael 2023.
Cynigyddion Cysylltiedig	yn golygu Cynigydd sy'n gysylltiedig â Chynigydd arall naill ai: (a) os yw'r Cynigyddion yn cyflwyno tendr gyda'i gilydd; neu (b) os yw S4C yn fodlon y bydd y Cynigyddion yn ymrwymo i drefniadau cyfreithiol rwymol i'r perwyl y bydd y Cynigydd yn is-gontractio'r gwaith o gyflawni'r cyfan neu ran o'r Contract i'r llall; neu (c) os bydd y Cynigydd arall yn gwarantu'r gwaith o gyflawni'r cyfan neu ran o'r Contract gan y Cynigydd (fel y nodir yn adran 22(9) o'r Ddeddf).
Holiadur Gwybodaeth y Cynigydd	yn golygu'r holiadur a nodir yn Nogfen A o 0 (Dogfennau Ymateb Tendr)0 o'r GiD hwn y mae'n rhaid i Gynigyddion ei gwblhau a'i gyflwyno yn rhan o'r GiD hwn.
Cynigydd(ion)	yn golygu cyflenwr neu gyflenwyr (yn ôl y digwydd) sy'n cymryd rhan yn y Caffael.

Term diffiniedig	Diffiniad
Platfform Digidol Canolog neu PDC	yn golygu'r system ar-lein a ddiffinnir gan reoliad 4 o Reoliadau Caffael (Cymru) 2024
Tystysgrif o beidio â chydgynllwynio a pheidio â chanfasio	yn golygu'r dystysgrif o beidio â chydgynllwynio a pheidio â chanfasio a geir yn Nogfen F o Atodiad 7 (Dogfennau Ymateb Tendr)0
Gweithdrefn Hyblyg Gystadleuol	yn golygu'r weithdrefn hyblyg gystadleuol fel y'i diffinnir gan adran 20 o'r Ddeddf.
Contract	yn golygu'r contract i ymrwymo iddo gan S4C gyda'r Cynigydd llwyddiannus.
CWMWL	yn golygu gwefan syniadau a chomisiynu Rhaglenni S4C ar gyfer cwmnïau cynhyrchu allanol, y mae rhagor o fanylion amdani ar gael yn 0 (Porth Comisiynu a Syniadau CWMWL).
Ffurf y Tendir	yn golygu ffurf y tendr a geir yn 0 Dogfen E o 0 (Dogfennau Ymateb Tendr).
FTP	(Protocol Trosglwyddo Ffeiliau) yw protocol rhwydwaith helaeth ei ddefnydd ar gyfer trosglwyddo ffeiliau rhwng cleient a gweinydd.
Gwahoddiad i Dendro neu GiD	yn golygu'r gwahoddiad i dendro hwn sydd ar gael i bob parti â diddordeb ac wedi'i gyhoeddi ar GwerthwchiGymru
Gwasanaeth a Reolir	bydd yn cynnwys cyfrifoldeb y cyflenwr o ddechrau'r broses i'w diwedd am weithrediad diogel, gwydn a pharhaus y platfform SRhD, gan gynnwys cynnal, ategu, ffurfweddu cymwysiadau, a chefnogi, yn ogystal (lle bo'n berthnasol) â chaffael a rheoli cylch bywyd yr holl seilwaith sylfaenol ac amgylcheddau system cysylltiedig.
Datganiad Dull	yn golygu'r datganiad dull a ddisgrifir yn Nogfen B 0 o 0 (Dogfennau Ymateb Tendr)

Term diffiniedig	Diffiniad
PAC	yn golygu'r wefan cyflwyno Rhaglen Orffenedig ar gyfer rhaglenni S4C a gomisiynir.
Porth	yn golygu gwefan GwerthwchiGymru a ddefnyddir gan S4C at ddibenion y Caffael hwn ac sydd ar gael yma: https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/
Holiadur Prisio	yn golygu'r holiadur prisio a geir yn Nogfen D o 0 (Dogfennau Ymateb Tendr).
Caffael	Y broses gaffael Gweithdrefn Hyblyg Gystadleuol hon.
Amserlen Gaffael	Yr amserlen ar gyfer y Caffael hwn fel y nodir yn y ddogfen hon.
Gofyniad/Gofynion	yn golygu Gofynion S4C ar gyfer y Gwasanaethau, a fanylir yn Atodiad 2 Gofynion S4C
Holiadur Technegol	yn golygu'r holiadur technegol a geir yn Nogfen C o 0 (Dogfennau Ymateb Tendr)0
Hysbysiad Tendr	yn golygu'r hysbysiad tendr mewn perthynas a'r broses Caffael hwn a gyhoeddwyd ar ar y PDC.
Ymateb Tendr	yn golygu ymateb tendr y Cynigydd a gyflwynwyd mewn ymateb i'r Gwahoddiad i Dendro (a fydd yn cynnwys y dogfennau canlynol): (a) Holiadur Gwybodaeth y Cynigydd (Dogfen A); (b) Datganiad Dull (Dogfen B); (c) Holiadur Technegol (Dogfen C); (d) Holiadur Prisio (Dogfen D); (e) Ffurf y Tendr (Dogfen E); a

Term diffiniedig	Diffiniad
	(f) Tystysgrif o beidio â chydgynllwynio a pheidio â chanfasio (Dogfen F).
Dogfennau Ymateb Tendr	yn golygu'r dogfennau a geir yn 0 ac yn cynnwys y dogfennau canlynol (y mae'n rhaid i'r Cynigydd eu cwblhau a'u cyflwyno er mwyn cyflwyno Ymateb Tendr): (a) Holiadur Gwybodaeth y Cynigydd (Dogfen A); (b) Datganiad Dull (Dogfen B); (c) Holiadur Technegol (Dogfen C); (d) Holiadur Prisio (Dogfen D); (e) Ffurf y Tendr (Dogfen E); a (f) Tystysgrif o beidio â chydgynllwynio a pheidio â chanfasio (Dogfen F).
UNC	Defnyddir UNC (Confensiwn Enwi Unffurf) yn bennaf gan ddyfeisiau Windows i gyrchu ffeiliau a rennir, argraffyddion, ac adnoddau eraill ar rwydwaith ardal leol (LAN).

- 3.2 Mae pob cyfeiriad at **"adran"** at adran yn y Ddeddf oni nodir yn wahanol.
- 3.3 Mae pob cyfeiriad at **"paragraff"** neu **"atodlen"** at baragraff neu atodlen o'r GiD hwn oni nodir fel arall.
- 3.4 Bydd pob cyfeiriad at ddyddiadau ac amseroedd yn y ddogfen hon yn cael ei ddehongli yn unol â chylchfâu amser y Deyrnas Unedig sy'n berthnasol ar ddyddiad y Caffael (h.y. GMT/BST).

4 TROSOLWG O OFYNIAD S4C

- 4.1 Mae S4C yn cynnal proses dendro ar gyfer darparu, gweithredu a chefnogi System Rheoli Darlledu gwbl integredig (**"SRhD"** neu'r **"Gwasanaethau"**) am gyfnod o ddeng (10) mlynedd gydag opsiwn i estyn y contract am ddwy (2) flynedd arall (y **"Contract"**).
- 4.2 Ar hyn o bryd mae S4C yn defnyddio SRhD fewnol ar gyfer yr holl brosesau cynllunio, amserlennu, adrodd a rheoli hawliau. Er mwyn ateb y galw cynyddol am y

gwasanaethau hyn, mae S4C yn dymuno caffael SRhD newydd i gymryd lle'r ateb mewnol.

- 4.3 Rhaid i'r SRhD ddarparu llif gwaith unedig ar gyfer cynllunio a chyflwyno cynnwys ar draws pob platfform, gan gynnwys darlledu llinol, BBC iPlayer, platfform Fideo Ar Alw (VOD) S4C ei hun (S4C Clic), a sianeli digidol/cymdeithasol trydydd parti.
- 4.4 Rhaid i'r system allu rheoli cylch bywyd cynnwys darlledu o'r dechrau i'r diwedd, gan gynnwys:
 - 4.4.1 Cyflwyno syniadau a chomisiynu
 - 4.4.2 Rheoli hawliau a thaliadau
 - 4.4.3 Rhagolwg o gynnwys sydd ar gael ar y system MAM sy'n bodoli eisoes
 - 4.4.4 Cyllid rhaglenni
 - 4.4.5 Amserlennu a chynllunio'r cyfryngau gan gynnwys hyrwyddiadau
 - 4.4.6 Cynhyrchu amserlenni manwl ar gyfer awtomeiddio'r signal darlledu (*playout*)
 - 4.4.7 Olrhain cydymffurfiaeth
 - 4.4.8 Dosbarthu aml-blatfform (llinol, cymdeithasol a VOD)
 - 4.4.9 Dadansoddi data chwaraewyr gan ddefnyddwyr S4C Clic a storfa Data Defnyddwyr
 - 4.4.10 Rheoli gwasanaethau mynediad (e.e. isdeitlau, sain-ddisgrifiad, arwyddo)
 - 4.4.11 Creu adroddiadau rheoli e.e. adroddiadau OFCOM ac ati.
- 4.5 Rhaid i'r SRhD hefyd gynnwys nodwedd integredig ar gyfer olrhain a gweinyddu hawliau rhaglenni, cyfranwyr, a metadata cysylltiedig, gan sicrhau cefnogaeth gadarn ar gyfer cydymffurfiaeth olygyddol a chyfreithiol ar draws pob platfform.
- 4.6 Nodir manylion llawn y Gofynion yn 0 (ATODIAD 2 Gofynion S4C).

5 MANYLION Y CONTRACT

5.1 Hyd

- 5.1.1 Bydd hyd y Contract yn gyfnod o 10 mlynedd o gychwyn y Contract.
- 5.1.2 Bydd gan S4C opsiwn i estyn y Contract ar ddiwedd y cyfnod o ddeng mlynedd am gyfnod (neu gyfnodau) pellach hyd at 2 flynedd.

- 5.1.3 Bydd gan S4C yr hawl i derfynu'r contract ar ôl pum mlynedd drwy roi rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw i'r Cynigydd.

5.2 Lotiau

- 5.2.1 Bydd S4C yn dyfarnu un Contract i un Cynigydd ac felly ni fydd lotiau.

5.3 Risgiau hysbys

- 5.3.1 Mae S4C wedi nodi'r risgiau hysbys canlynol sydd, oherwydd eu natur, yn gofyn i gynigyddion wneud ystyriaethau priodol yn eu Hymatebion Tendr.

(a) Mudo Data ac Ansawdd Data

Bydd yn ofynnol i'r System fudo data o systemau a ffynonellau data presennol. Gall ansawdd, strwythur, cyflawnrwydd a chysondeb data o'r fath amrywio. Mae cynigyddion yn gyfrifol am fodloni eu hunain ynghylch cwpas a chymhlethdod gweithgareddau mudo data ac am wneud ystyriaethau priodol ar gyfer dilysu, cysoni ac adfer o fewn eu hateb a'u dull cyflawni arfaethedig. Gweler 0.

(b) Integreiddio â Systemau Trydydd Parti

Disgwylir i'r System integreiddio â systemau a gwasanaethau trydydd parti, nad yw rhai ohonynt yn cael eu gweithredu na'u rheoli gan S4C. Dylai cynigyddion sicrhau bod eu hateb arfaethedig yn gallu darparu ar gyfer dibyniaethau technegol, diogelwch ac amserlennu sy'n gysylltiedig ag integreiddio felly, yn unol â'r gofynion a nodir yn 0.

(c) Parhad Gweithredol a Phontio

Mae S4C yn mynnu bod gweithrediadau'n parhau wrth weithredu a phontio i'r System newydd. Mae cynigyddion yn gyfrifol am gynnig a chyflawni dulliau priodol o drostorri, gweithredu cyfochrog (lle bo'n berthnasol), sefydlogi a rheoli risg, yn unol â'r gofynion gwasanaeth a nodir yn 0.

(d) Newid ac Esblygu Gofynion

Er bod gofynion S4C wedi'u nodi yn 0, dylai Cynigyddion gydnabod y gall gofynion gweithredol, technegol neu reoleiddiol esblygu dros gyfnod y Contract. Dylai cynigyddion ddisgrifio sut y gall eu hateb a'u dull cyflawni arfaethedig ddarparu ar gyfer newid rhesymol yn unol â darpariaethau rheoli newid y Contract.

- 5.3.2 Pe bai unrhyw un o'r risgiau hysbys hynny yn digwydd yn ystod y Contract (ac eithrio o ganlyniad i unrhyw weithred neu hepgoriad gan S4C neu'r Cynigydd llwyddiannus) ac, o ganlyniad i risg o'r fath, na ellir cyflawni'r Contract er boddhad S4C ac na fyddai dyfarnu contract pellach er budd y cyhoedd, yna mae S4C yn cadw'r hawl i addasu'r Contract yn unol â pharagraffau 5 i 7 o Atodlen 8 Deddf Caffael 2023.

6 YMGYSYLLTU RHAGARWEINIOL Â'R FARCHNAD

6.1 Bu S4C, cyn cyhoeddi'r Hysbysiad Tendr, yn gwneud gwaith ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad yn unol ag adran 16 o'r Ddeddf, a hynny at ddibenion:

6.1.1 datblygu Gofynion a dull S4C o ymdrin â'r Caffael;

6.1.2 dylunio gweithdrefn, amodau cyfranogiad neu feini prawf dyfarnu;

6.1.3 paratoi'r Hysbysiad Tendr a'r dogfennau tendr cysylltiedig;

6.1.4 nodi cyflenwyr a allai gyflenwi'r Gwasanaethau sy'n ofynnol;

6.1.5 nodi telerau cytundebol tebygol;

6.1.6 meithrin gallu ymhlith cyflenwyr mewn perthynas â'r Contract sy'n cael ei ddyfarnu.

6.2 Rhwng Ch4 2024 a Ch2 2025, cysylltodd S4C â nifer o gyflenwyr a nodwyd a gwahodd y cyflenwyr hynny i ymateb i holiadur a oedd yn gofyn am fanylion ynglŷn â sut roedd eu systemau'n gweithredu er mwyn cynorthwyo S4C i ddatblygu ei Gofynion.

6.3 Yn ogystal, gwahoddwyd nifer o gyflenwyr i arddangos eu systemau i S4C i gynorthwyo S4C i ddatblygu ei Gofynion.

6.4 Mae S4C wedi cymryd camau i sicrhau nad oes unrhyw gyflenwyr a gymerodd ran yn yr ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad wedi cael mantais annheg ac nad yw'r gystadleuaeth yn cael ei hystumio fel arall.

Cyhoeddodd S4C hysbysiad ymgysylltu rhagarweiniol â'r farchnad ar y PDC ar 9 Hydref 2025. Mae hwn ar gael yma:-

https://www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/search/show/search_view.aspx?ID=OC T551232

7 Y BROSES GAFFAEL

7.1 Cynhelir y Caffael hwn gan S4C yn unol â'r Weithdrefn Hyblyg Gystadleuol yn unol ag adran 20 o Ddeddf Caffael 2023.

7.2 Mae'r Gwahoddiad i Dendro hwn yn agored i bob cyflenwr sydd â diddordeb. Rhaid i unrhyw Gynigydd sy'n dymuno cymryd rhan gyflwyno Ymateb Tendr yn unol â'r cyfarwyddiadau a nodir yn y GiD hwn ac erbyn y dyddiad cau a nodir yn yr Amserlen Gaffael. Gweler yr **Amserlen Gaffael**

7.3 Nodir yr amserlen ar gyfer y Caffael hwn yn y tabl canlynol (yr "**Amserlen Gaffael**"):

Dyddiadau ac amseroedd	Gweithgaredd caffael
20/03/26	Cyhoeddi Gwahoddiad i Dendro i Gynigyddion
12:00 ar 02/04/26	Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cwestiynau eglurhad
12:00 ar 28/04/26	Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Ymatebion Tendr
28/04/26 i 19/05/26	Gwerthuso Ymatebion Tendr
19/05/26 i 16/06/26	Gellir gwahodd y tri chynigydd sydd â'r sgôr uchaf i gymryd rhan mewn cyfweiliadau a/neu arddangosiadau i S4C
16/06/26	Amcangyfrif o ddyddiad ar gyfer cyhoeddi crynodebau asesu i bob Cynigydd
16/06/26	Amcangyfrif o ddyddiad ar gyfer cyhoeddi hysbysiad dyfarnu contract
16/06/26 i 25/06/26	Amcangyfrif o ddyddiad ar gyfer y cyfnod segur
21/07/26	Amcangyfrif o ddyddiad ar gyfer ymrwymo i'r contract
24/07/26	Amcangyfrif o ddyddiad ar gyfer cyhoeddi hysbysiad manylion y contract

7.4 Os na fydd y dyddiadau hyn yn cael eu bodloni, ni fydd Ymateb Tendr y Cynigydd yn cael ei ystyried, oni bai bod amgylchiadau lliniarol eithriadol fel methiant technegol mewn cysylltiad â'r Porth.

7.5 Sylwch fod S4C yn cadw'r hawl, yn ôl ei disgresiwn llwyr, i ddiwygio'r Amserlen Gaffael neu estyn unrhyw gyfnod o amser mewn cysylltiad â'r Caffael. Bydd y Cynigyddion yn cael gwybod ar yr un pryd am unrhyw newidiadau i'r Amserlen Gaffael.

8 TELERAU'R CONTRACT

8.1 Nodir y telerau ac amodau Contract drafft yn Atodiad 3 (Telerau ac Amodau Contract Drafft).

8.2 Mae telerau ac amodau'r Contract yn anghyfnewidiadwy. Fodd bynnag, bydd y Cynigyddion ar y rhestr fer yn cael cyfle i godi unrhyw sylwadau ar delerau ac amodau'r Contract drafft drwy'r broses egluro. Os oes gan Gynigyddion unrhyw

sylwadau o'r fath, yna dylent gyflwyno'r sylwadau hynny drwy'r Porth yn unol â pharagraff 10 (Ceisiadau am eglurhad) o'r Gwahoddiad i Dendro hwn.

- 8.3 Ar ôl ystyried unrhyw eglurhad o'r fath a godwyd gan Gynigyddion ar y Rhestr Fer, gall S4C, yn ôl ei disgresiwn, ystyried sylwadau o'r fath a chyhoeddi telerau ac amodau Contract drafft wedi'u diweddarau pan ystyrir bod angen eglurhad neu newidiadau yn dilyn adborth gan gyflenwyr (ond mae'n cadw'r hawl i'w mabwysiadu'n llawn heb eu haddasu) ac, os felly, bydd yn cyhoeddi telerau ac amodau'r Contract ar eu ffurf derfynol cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Ymateb Tendr.
- 8.4 Gofynnir i Gynigyddion ar y rhestr fer gadarnhau eu bod yn derbyn y telerau hynny yn rhan o'u Hymateb Tendr. Os na fyddant yn cadarnhau eu bod yn derbyn y telerau hynny, bydd eu Hymateb Tendr yn cael ei ddiystyru.
- 8.5 Trwy gyflwyno Ymateb Tendr, mae Cynigyddion yn nodi eu bod yn derbyn telerau'r Contract drafft ac, os byddant yn llwyddiannus, yn cytuno i ymrwymo i Gontract yn seiliedig ar y telerau hynny.
- 8.6 Mae S4C yn cadw'r hawl i ddiwygio'r Contract drafft ar ôl ei ddyfarnu i'r graddau sy'n angenrheidiol i gydymffurfio â'r telerau penodol y cytunwyd arnynt gyda'r Cynigyddion llwyddiannus fel y nodir yn eu Hymateb Tendr a/neu i egluro telerau'r Contract drafft yn unig. Os nad yw'r contract wedi'i gwblhau'n foddhaol ar ôl dyfarnu'r tendr, mae S4C yn cadw'r hawl i ddyfarnu'r Contract i Gynigydd arall neu ail-dendro'r Contract.
- 8.7 Bydd yn ofynnol i'r Cynigydd llwyddiannus gydymffurfio â'r codau ymarfer, deddfwriaeth a chanllawiau canlynol (ymhlith eraill):-
- 8.7.1 Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch
 - 8.7.2 Gofynion Technegol S4C
 - 8.7.3 Polisiâu Diogelu Data a Phreifatrwydd S4C
 - 8.7.4 Datganiad Ymrwymiad S4C i Amrywiaeth
 - 8.7.5 Cod Darlledu Ofcom
 - 8.7.6 Polisi Cyfryngau Cymdeithasol S4C
- 8.8 Dylai pob Cynigydd gynnwys y gost o gydymffurfio â'r uchod (gan gynnwys cost cyngor priodol) yn ei Ymateb Tendr. Mae llawer o'r canllawiau hyn ar gael ar wefan Cynhyrchu S4C sydd ar gael yn <https://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/page/canllawiau>

9 CYFATHREBU YNGLŶN Â'R CAFFAEL

- 9.1 Rhaid i bob cyfathrebu ynglŷn â'r broses gaffael hon gael ei gyfeirio trwy'r Porth.

- 9.2 Ni ddylai cynigyddion gysylltu'n uniongyrchol ag unrhyw un o weithwyr S4C drwy unrhyw ddull cyfathrebu arall i drafod y Caffael hwn, o dan unrhyw amgylchiadau.
- 9.3 Dylai cynigyddion sy'n dod ar draws unrhyw broblem dechnegol gyda'r Porth roi gwybod amdani i ddarparwr y Porth i'w datrys. Dylent gysylltu ag S4C yn ddi-oed drwy'r pwynt cyswllt canlynol:-

cyfreithiol_legal@s4c.cymru

10 CEISIADAU AM EGLURHAD

- 10.1 Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau am eglurhad sy'n ymwneud â'r Caffael drwy'r Porth cyn y dyddiad cau yn yr Amserlen Gaffael ym mharagraff 7 (Y Broses Gaffael) uchod er mwyn rhoi digon o amser i S4C ymateb cyn y dyddiad cau ar gyfer cael Ymatebion Tendir.
- 10.2 Dylai unrhyw geisiadau am eglurhad gyfeirio'n glir at baragraff priodol y GiD neu atodlen briodol y ddogfennaeth gaffael y mae angen eglurhad yn eu cylch.
- 10.3 Bydd S4C yn ymdrechu i ymateb i geisiadau am eglurhad a gyflwynir yn unol â'r gofynion hyn cyn gynted â phosibl.
- 10.4 Mae S4C yn cadw'r hawl i beidio ag ateb unrhyw geisiadau am eglurhad a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau a nodir yn yr Amserlen Gaffael ym mharagraff 7 (Y Broses Gaffael) uchod neu a gyflwynir drwy unrhyw fodd heblaw'r Porth.
- 10.5 Pan fo S4C o'r farn bod unrhyw geisiadau am eglurhad yn berthnasol i weithrediad priodol y Caffael, bydd yn trosglwyddo i'r holl Gynigyddion eraill (heb enwi'r Cynigydd a gyflwynodd y cwestiwn eglurhad) y cwestiwn eglurhad a godwyd yn ogystal ag ymateb S4C, ac eithrio'r rhai a ystyrir yn gyfrinachol fel y darperir isod.
- 10.6 Os yw cynigydd o'r farn y dylid trin ei gais am eglurhad yn gyfrinachol a heb ei ddatgelu i gynigyddion eraill, rhaid iddo gyfleu hyn a'r rheswm pam i S4C ar adeg cyflwyno'r cais hwnnw am eglurhad. Bydd S4C yn rhoi gwybod i'r cynigydd cyn darparu'r ymateb eglurhad os yw'n ystyried nad ellir trin y cyfan neu ran o'r cais am eglurhad yn gyfrinachol a bydd yn rhoi cyfle i'r cynigydd dynnu agweddau o'r fath ar y cais am eglurhad yn ôl.
- 10.7 O dan amgylchiadau felly, caiff y Cynigydd naill ai gyflwyno cais diwygiedig am drin yr eglurhad yn gyfrinachol, a fyddai'n cael ei ystyried gan S4C yn yr un modd â'r cais gwreiddiol, neu godi cais newydd i'w drin fel cais nad yw'n gyfrinachol am eglurhad.
- 10.8 Cyfrifoldeb pob Cynigydd yw monitro pob eglurhad a gyhoeddir gan S4C. Nid yw S4C yn derbyn unrhyw atebolrwydd am fethiant unrhyw Gynigydd i gadw i fyny â'r eglurhad a gyhoeddwyd.

11 SUT I YMATEB I'R GID HWN

- 11.1 Rhaid i gynigyddion gyflwyno eu Hymatebion Tendr wedi'u cwblhau trwy'r Porth erbyn y dyddiad cau a nodir yn yr Amserlen Gaffael. Ni dderbynnir unrhyw gyflwyniadau y tu allan i'r Porth.
- 11.2 Rhaid i gynigyddion gyflwyno eu Hymateb Tendr drwy'r Porth. Ni dderbynnir unrhyw gyflwyniadau y tu allan i'r Porth.
- 11.3 Gellir cyflwyno Ymatebion Tendr naill ai yn Gymraeg neu'n Saesneg a bydd unrhyw Ymateb Tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yr un mor ffafriol ag Ymateb Tendr a gyflwynir yn Saesneg.
- 11.4 Rhaid i gynigyddion sicrhau bod eu Hymateb Tendr yn cyrraedd erbyn y dyddiadau cau a nodir yn yr Amserlen Gaffael. Os na fydd y dyddiadau hyn yn cael eu bodloni, ni fydd cyflwyniad Cynigydd yn cael ei ystyried, oni fydd amgylchiadau lliniarol eithriadol, megis methiant technegol mewn cysylltiad â'r Porth.
- 11.5 Nid yw S4C yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddiffygion unrhyw system gyflenwi (gan gynnwys y Porth) am unrhyw Ymateb Tendr a gollwyd, a oedwyd neu sy'n ddiffygiol. Cyfrifoldeb y Cynigydd yw sicrhau bod ei Ymateb Tendr wedi'i gwblhau mewn da bryd (gan ystyried posibilrwydd absenoldebau staff neu fethiannau technegol) a'i gyflwyno erbyn y dyddiad cau a nodir yn yr Amserlen Gaffael. Cynghorir cynigyddion i beidio â gadael cyflwyno'r Ymatebion Tendr tan yn agos at y dyddiad cau ac i ganiatáu digon o amser i gyflwyno eu Hymatebion Tendr.
- 11.6 Lle bo unrhyw gwestiwn yn unrhyw un o'r Dogfennau Ymateb Tendr yn nodi bod terfyn cyfrif geiriau, ni fydd S4C yn asesu unrhyw gynnwys y tu hwnt i'r terfyn cyfrif geiriau. Bydd unrhyw destun a gynhwysir mewn unrhyw ffotograffau, diagramau, siartiau neu ddeunydd arall a gynhwysir yn yr Ymateb Tendr yn cael ei gynnwys o fewn y cyfrif geiriau.

12 YR HYN Y MAE'N OFYNNOL I GYNIGYDDION EI GYFLWYNO YN RHAN O'U HYMATEB TENDR

- 12.1 Bydd gofyn i gynigyddion gyflwyno pob un o'r Dogfennau Ymateb Tendr canlynol er mwyn cyflwyno Ymateb Tendr dilys. Os bydd unrhyw un o'r dogfennau isod heb eu cyflwyno, neu os bydd unrhyw ddogfennau'n anghyflawn, bydd ymateb y Cynigydd yn cael ei ddiystyru.

12.2 Holiadur Gwybodaeth y Cynigydd

- 12.2.1 Mae'n ofynnol i gynigyddion lenwi Holiadur Gwybodaeth y Cynigydd a geir yn Nogfen A o'r Dogfennau Ymateb Tendr a llwytho a chyflwyno ei Holiadur Gwybodaeth y Cynigydd wedi'i lenwi i'r Porth erbyn y dyddiad cau.

12.3 Datganiad dull

- 12.3.1 Mae'n ofynnol i gynigyddion gwblhau datganiad dull ysgrifenedig cynhwysfawr sy'n manylu ar y ffordd y mae eu hateb arfaethedig o ran System Rheoli Darlledu (SRhD) yn bodloni cwmipas llawn gofynion S4C. Rhaid cwmpasu pob un o'r meysydd a godwyd yn Nogfen B o'r Dogfennau Ymateb Tendr (Datganiad Dull) a llwytho a chyflwyno eu datganiad dull wedi'i gwblhau i'r Porth erbyn y dyddiad cau.
- 12.3.2 Rhaid gwneud ymatebion cynigyddion yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarperir yn y datganiad dull ac yn y GiD hwn.
- 12.3.3 Ni ddylai cynigyddion gymryd yn ganiataol fod gan S4C unrhyw wybodaeth flaenorol am y Cynigydd, ei arfer na'i enw da, nac am ei ran mewn gwasanaethau, prosiectau neu gaffaeliadau presennol.
- 12.3.4 Mae gan y Datganiad Dull gyfanswm terfyn cyfrif geiriau o 15,000 o eiriau. Nodir cyfrif geiriau pob adran o'r datganiad dull yn glir. Ni fydd S4C yn asesu unrhyw gynnwys y tu hwnt i'r terfyn cyfrif geiriau. Bydd unrhyw destun a gynhwysir mewn unrhyw ffotograffau, diagramau, siartiau neu ddeunydd arall a gynhwysir yn yr Ymateb Tendr yn cael ei gynnwys o fewn y cyfrif geiriau.
- 12.3.5 Rhaid i gynigyddion fewnosod, atodi neu ddarparu atodiadau yn rhan o'u Hymateb Tendr dim ond pan ofynnir iddynt wneud hynny, a dim ond mewn ymateb i'r cwestiynau a bennir gan S4C. Os bydd Cynigyddion yn atodi dogfen lle na ofynnwyd amdani, ni fydd S4C yn ystyried nac yn gwerthuso'r ddogfen honno.
- 12.3.6 Gall cynigyddion gynnwys gwybodaeth ychwanegol pan fo'n berthnasol i'w Hymatebion Tendr, ond ni ddylai Ymatebion Tendr gynnwys unrhyw wybodaeth allanol nad yw'r GiD yn gofyn amdani nac yn ei mynnu'n benodol, gan gynnwys, er enghraifft, llenyddiaeth werthu a'ch telerau masnachu safonol eich hun (na fyddant, er mwyn osgoi amheuaeth, yn cael eu derbyn).
- 12.3.7 Os daw'r Cynigydd (neu, yn achos ymateb tendr a gyflwynir gan gonsortïwm, unrhyw aelod o'r consortïwm) yn ymwybodol ar unrhyw adeg fod unrhyw wybodaeth y mae'r Cynigydd (neu, yn achos Ymateb Tendr a gyflwynir gan gonsortïwm, unrhyw aelod o'r consortïwm) wedi'i darparu i S4C mewn cysylltiad â'r Caffael hwn yn anghyflawn, yn anghywir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw agwedd neu wedi peidio â bod yn gywir, rhaid hysbysu S4C am hynny ar unwaith.
- 12.3.8 Dylid cyflwyno'r Datganiad Dull ar ffurf PDF.

12.4 Holiadur Technegol

- 12.4.1 Mae'n ofynnol i gynigyddion lenwi'r Holiadur Technegol a geir yn Nogfen C o'r Dogfennau Ymateb Tendr a llwytho a chyflwyno eu Holiadur Technegol wedi'i lenwi i'r Porth erbyn y dyddiad cau.
- 12.4.2 Rhaid i ymatebion cynigyddion i'r cwestiynau penodol yn yr Holiadur Technegol gael eu gwneud yn unol â'r cyfarwyddiadau a ddarperir yn yr Holiadur Technegol ac yn y GiD hwn.
- 12.4.3 Ni ddylai cynigyddion gymryd yn ganiataol fod gan S4C unrhyw wybodaeth flaenorol am y Cynigydd, ei arfer na'i enw da, nac am ei ran mewn gwasanaethau, prosiectau neu gaffaeliadau presennol.
- 12.4.4 Lle bo unrhyw gwestiwn yn yr Holiaduron Technegol yn nodi bod terfyn cyfrif geiriau, ni fydd S4C yn asesu unrhyw gynnwys y tu hwnt i'r terfyn cyfrif geiriau. Bydd unrhyw destun a gynhwysir mewn unrhyw ffotograffau, diagramau, siartiau neu ddeunydd arall a gynhwysir yn yr Ymateb Tendr yn cael ei gynnwys o fewn y cyfrif geiriau.
- 12.4.5 Rhaid i gynigyddion fewnosod, atodi neu ddarparu atodiadau yn rhan o'u Hymateb Tendr dim ond pan ofynnir iddynt wneud hynny, a dim ond mewn ymateb i'r cwestiynau a bennir gan S4C. Os bydd Cynigyddion yn atodi dogfen lle na ofynnwyd amdani, ni fydd S4C yn ystyried nac yn gwerthuso'r ddogfen honno.
- 12.4.6 Gall cynigyddion gynnwys gwybodaeth ychwanegol pan fo'n berthnasol i'w Hymatebion Tendr, ond ni ddylai Ymatebion Tendr gynnwys unrhyw wybodaeth allanol nad yw'r GiD yn gofyn amdani nac yn ei mynnu'n benodol, gan gynnwys, er enghraifft, llenyddiaeth werthu a'ch telerau masnachu safonol eich hun (na fyddant, er mwyn osgoi amheuaeth, yn cael eu derbyn).
- 12.4.7 Os daw'r Cynigydd (neu, yn achos ymateb tendr a gyflwynir gan gonsortïwm, unrhyw aelod o'r consortïwm) yn ymwybodol ar unrhyw adeg fod unrhyw wybodaeth y mae'r Cynigydd (neu, yn achos Ymateb Tendr a gyflwynir gan gonsortïwm, unrhyw aelod o'r consortïwm) wedi'i darparu i S4C mewn cysylltiad â'r Caffael hwn yn anghyflawn, yn anghywir neu'n gamarweiniol mewn unrhyw agwedd neu wedi peidio â bod yn gywir, rhaid hysbysu S4C am hynny ar unwaith.
- 12.4.8 Dylid cyflwyno'r Holiadur Technegol mewn fformat Excel.
- 12.4.9 Dylai cynigyddion nodi ei bod yn ofynnol iddynt gwblhau'r tabiau "Cwestiynau" ac "NFR" yn y daenlen.

12.5 Holiadur Prisio

12.5.1 Mae'n ofynnol i gynigyddion lenwi'r Holiadur Prisio a geir yn Nogfen D o'r Dogfennau Ymateb Tendr a llwytho a chyflwyno eu Holiadur Prisio wedi'i lenwi i'r Porth erbyn y dyddiad cau.

12.5.2 Mae S4C yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gwasanaethau a reolir gael eu darparu am ffi sefydlog flynyddol i gynnwys unrhyw gostau sefydlu, rheoli cyfrifon, gweinyddu, staffio, cyfarfodydd, cymhellion, costau meddalwedd a'r holl gostau a threuliau eraill sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth. Rhaid i'r ffi sefydlog hon gael ei mynegi neu ei throsi'n bunnoedd sterling, heb gynnwys TAW a rhaid ei bod yn sefydlog drwy gydol y Contract (yn destun unrhyw ddarpariaethau yn y Contract sy'n ymwneud â mynegeo).

12.5.3 Dylai darparwr y Gwasanaeth a Reolir gael o leiaf yr amgylcheddau datblygu hyn:

- (a) Ardal Prawf Mudo Data sy'n dod yn Hyfforddiant o dan BAU
- (b) SIT (Profi Integreiddio System) sy'n dod yn Brofi Derbyn Defnyddwyr (UAT) o dan BAU
- (c) Cyn-gynhyrchu
- (d) Cynhyrchu

12.5.4 Bydd yr wybodaeth a ddarperir yn yr Holiadur Prisio yn cael ei defnyddio i bennu cyfanswm pris ar gyfer pob Cynigydd a'r cyfanswm pris hwn fydd yn cael ei werthuso (fel y nodir isod).

12.5.5 Ni chaniateir i unrhyw Gynigydd ddiwygio fformat yr Holiadur Prisio mewn unrhyw ffordd. Os bydd Cynigydd yn diwygio fformat yr Holiadur Prisio (sydd, er mwyn osgoi amheuaeth, yn cynnwys, er enghraifft, unrhyw ddiwygiad, ychwanegiad neu ddilead heblaw mewnbynnu'r data y gofynnwyd amdano) yna bydd ei Ymateb Tendr yn cael ei ddiystyru a'i hepgor rhag asesiad pellach.

12.5.6 Os bydd gan Gynigydd unrhyw ymholiadau ynglŷn â chynnwys, cwblhau a / neu gyflwyno'r Holiadur Prisio, rhaid cyflwyno'r rhain fel cwestiynau eglurhad yn unol â pharagraff 10 (Ceisiadau am eglurhad o'r GiD hwn).

12.5.7 Ni chaiff prisiau sydd wedi'u cynnwys mewn unrhyw Ymateb Tendr fod yn destun unrhyw amodau prisio neu fynegeo. Os bydd unrhyw brisiau mewn Ymateb Tendr yn cael eu mynegi fel rhai sy'n destun unrhyw amodau prisio neu fynegeo na ddarperir ar eu cyfer gan S4C yn yr Holiadur Prisio, nac yn y Gofynion nac yn y Contract, bydd S4C yn gwrthod yr Ymateb Tendr.

12.5.8 Dylid cyflwyno'r Holiadur Prisio mewn fformat PDF.

12.6 Ffurf y Tendr

12.6.1 Mae'n ofynnol i gynigyddion lenwi Ffurf y Tendr a geir yn Nogfen E o'r Dogfennau Ymateb Tendr a llwytho a chyflwyno eu Ffurf Tendr wedi'i llenwi i'r Porth erbyn y dyddiad cau.

12.7 Tystysgrif o beidio â chydgyllwynio a pheidio â chanfasio

12.7.1 Mae'n ofynnol i gynigyddion gwblhau'r Dystysgrif o beidio â chydgyllwynio a pheidio â chanfasio a nodir yn Nogfen F o'r Dogfennau Ymateb Tendr yn llawn a llwytho a chyflwyno eu Tystysgrif o beidio â chydgyllwynio a pheidio â chanfasio i'r Porth erbyn y dyddiad cau.

13 CYFWELIADAU AC ARDDANGOSIADAU

13.1 Gellir gofyn am gyfweiliadau a/neu arddangosiadau gan y tri (3) Chynigydd sydd â'r sgôr uchaf, yn ôl disgrisiwn S4C, at ddibenion egluro, dilysu a gwirio agweddau ar eu Hymatebion Tendr ac i gefnogi S4C i gwblhau ei gwerthusiad.

13.2 Bydd cyfweiliadau a/neu arddangosiadau yn canolbwyntio ar yr ateb a'r wybodaeth a ddarparwyd eisoes yn yr Ymateb Tendr yn unig ac ni fyddant yn caniatáu i Gynigyddion gyflwyno unrhyw wybodaeth neu gynigion newydd neu sylweddol wahanol.

13.3 Mae S4C yn cadw'r hawl i ystyried yr wybodaeth a ddarperir yn ystod unrhyw gyfweiliad a/neu arddangosiad wrth gwblhau'r sgoriau o dan y Datganiad Dull a'r Holiadur Technegol, ar yr amod bod unrhyw addasiadau o'r fath wedi'u cyfyngu'n llym i'r meini prawf dyfarnu a'r fethodoleg asesu a gyhoeddwyd.

13.4 Ar ôl cwblhau unrhyw gyfweiliadau a/neu arddangosiadau, gall S4C gadarnhau, cynyddu neu ostwng sgoriau Cynigydd, lle bo hynny'n briodol, i adlewyrchu gwell dealltwriaeth y gwerthuswyr o Ymateb Tendr y Cynigydd.

13.5 Mae S4C yn cadw'r hawl i beidio â chynnal cyfweiliadau na gofyn am arddangosiadau lle mae'n penderfynu bod digon o wybodaeth wedi'i darparu yn y cyflwyniad ysgrifenedig.

14 MEINI PRAWF DYFARNU

14.1 Bydd S4C yn dyfarnu'r Contract i'r Cynigydd ar y Rhestr Fer sydd â'r tendr mwyaf manteisiol yn unol â'r meini prawf dyfarnu a nodir isod.

14.2 Bydd y meini prawf dyfarnu fel a ganlyn:

Meini Prawf Dyfarnu	Is-feini prawf	Sgôr wedi'i phwysoli

Datganiad Dull – 55% Sylwer: bydd pob un o'r is-feini prawf yn cynnwys is-feini prawf pellach, a dyrennir is-bwysoliad i bob un ohonynt. Gweler Dogfen B o'r Dogfennau Ymateb Tendr am ragor o fanylion.	A) Profiad a Phersonél y Cwmni	2.5%
	b) Nodweddion y System Arfaethedig ac Arloesi	15%
	c) Pensaernïaeth y System	10%
	D) Telerau Trwyddedu Meddalwedd	2.5%
	E) Strategaeth Mudo a Throsglwyddo Data	10%
	F) Cynllun Gweithredu Prosiect	10%
	G) Cymorth ar ôl Gweithredu	5%
Holiadur Technegol – 25%	Bydd pob un o'r cwestiynau yn yr Holiadur Technegol yn cael eu sgorio ar wahân a'u lluosî â'r pwysau perthnasol, ac yna bydd cyfanswm y sgoriau wedi'u pwysoli ar gyfer yr holl Gwestiynau Technegol ar gyfer Cynigydd yn cael eu cydgrynhoi i gael cyfanswm sgôr ar gyfer y Cynigydd hwnnw ar gyfer yr Holiadur Technegol (allan o gyfanswm sgôr posibl o 7233)	25%
Holiadur Prisio – 20%	Amherthnasol	20%
Cyfanswm - 100%		

15 EGLURHAD O YMATEBION TENDR

- 15.1 Mae S4C yn cadw'r hawl (ond nid oes rhaid iddi) i geisio eglurhad ar unrhyw agwedd ar Ymateb Tendr y Cynigydd yn ystod unrhyw gam o'r cyfnod asesu.

- 15.2 Mae'n ofynnol i gynigyddion ymateb i unrhyw geisiadau am eglurhad yn brydlon o fewn y cyfnod a bennwyd gan S4C wrth geisio eglurhad o'r fath.
- 15.3 Os na fydd Cynigydd yn ymateb i S4C pan fydd wedi gofyn am eglurhad, neu os na fydd yn darparu'r eglurhad y gofynnwyd amdano, mae S4C yn cadw'r hawl i asesu'r Ymateb Tendr gwreiddiol fel y'i cafwyd.
- 15.4 Mae S4C yn cadw'r hawl i werthuso'r Ymateb Tendr gwreiddiol a gafwyd heb ystyried unrhyw ymateb eglurhad a gafwyd gan y Cynigydd lle mae'n ystyried ei bod yn rhesymol gwneud hynny.

16 Y BROSES ASESU YMATEB TENDR

16.1 Bydd S4C yn asesu Ymatebion Tendr fel a ganlyn:

16.2 Cam 1 - Gwirio Cydymffurfiaeth

16.2.1 Ar ôl cael Ymateb Tendr y Cynigydd, bydd S4C yn cynnal gwiriad cydymffurfiaeth cyffredinol i sicrhau bod yr Ymateb Tendr yn cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau neu'r gofynion gweithdrefnol a nodir yn yr Hysbysiad Tendr, y GiD hwn neu'r dogfennau caffael cysylltiedig.

16.2.2 Os na fydd Ymatebion Tendr wedi cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau neu'r gofynion gweithdrefnol, gall S4C benderfynu nad ydynt yn cydymffurfio ac felly eu gwrthod.

16.2.3 Bydd yr asesiad hwn yn cynnwys (er enghraifft):

- (a) cwblhau'r holl ddogfennau cyflwyno gofynnol;
- (b) cydymffurfio â gofynion gweithdrefnol gorfodol;
- (c) derbyn Telerau'r Contract; a
- (d) bodloni unrhyw drothwy lleiaf neu feini prawf llwyddo/methu a nodir yn yr Holiadur Gwybodaeth i Gynigyddion.

16.2.4 Gall S4C hefyd ddiystyru Ymateb Tendr sy'n cynnwys:

- (a) unrhyw rybuddion neu unrhyw ddatganiadau neu ragdybiaethau eraill sy'n amodi Ymateb Tendr y Cynigydd nad oes modd eu hasesu yn unol â'r fethodoleg asesu neu sy'n ceisio amodi Gofynion S4C mewn unrhyw ffordd.
- (b) bylchau, hepgoriadau, camliwiadau, gwallau, rhannau anghyflawn, neu newidiadau i fformat y ddogfennaeth dendro a ddarparwyd.

16.3 Cam 2 – Asesu Holiadur Gwybodaeth y Cynigydd

16.3.1 Bydd S4C yn asesu Holiadur Gwybodaeth y Cynigydd fel a ganlyn:

16.3.2 Gwybodaeth Graidd y Cyflenwr

- (a) Bydd yn ofynnol i gynigyddion fod wedi'u cofrestru ar y PDC a darparu gwybodaeth graidd y cyflenwr mewn perthynas â'u sefydliad eu hunain a'u personau cysylltiedig, yn ogystal ag unrhyw bersonau cysylltiedig neu isgontractwyr y maent yn dibynnu arnynt i fodloni'r amodau cyfranogiad.
- (b) Mae cynigyddion yn gyfrifol am sicrhau bod y PDC yn cynnwys gwybodaeth gyflawn, gywir a chyfredol am eu sefydliad ac unrhyw gyflenwyr cysylltiedig sy'n berthnasol at ddibenion y Caffael hwn. Rhaid i gynigyddion roi gwybod i S4C ar unwaith os nad allant gofrestru ar y PDC a/neu ddarparu gwybodaeth gywir a chyfredol drwy'r PDC.
- (c) Caiff S4C ddiystyru Ymateb Tendir os nad yw'r Cynigydd wedi darparu'r wybodaeth berthnasol o'r PDC ar ffurf ffeil PDF neu rannu cod yn ôl y gofyn.
- (d) Caiff S4C hefyd ddiystyru Ymateb Tendir gan gyflenwr nad yw'n gyflenwr yn y Deyrnas Unedig neu'n gyflenwr gwladwriaeth gytuniad neu sy'n bwriadu is-gontractio gwaith cyflawni'r cyfan neu ran o'r contract i gyflenwr nad yw'n gyflenwr yn y Deyrnas Unedig neu'n gyflenwr gwladwriaeth gytuniad.

16.3.3 Gwaharddiadau a gwahardd

- (a) Ar ôl cynnal y gwiriad cydymffurfio cychwynnol, bydd S4C yn cadarnhau nad yw'r Cynigydd nac unrhyw bersonau cysylltiedig, personau cysylltiedig y dibynnir arnynt i fodloni'r amodau cyfranogiad, nac isgontractwyr arfaethedig wedi'u rhestru ar restr wahardd Swyddfa'r Cabinet (sydd i'w gweld [yma](#)). I'r graddau y mae unrhyw endidau o'r fath wedi'u rhestru ar y rhestr wahardd, bydd S4C yn ystyried a ddylid gwahardd y Cynigydd rhag cymryd rhan yn y Caffael yn unol â'i rhwymedigaethau o dan y Ddeddf.
- (b) Bydd S4C hefyd yn ystyried, mewn perthynas â phob Cynigydd a gyflwynodd dendr, a yw'r cyflenwr neu unrhyw bersonau cysylltiedig, personau cysylltiedig y dibynnir arnynt i fodloni'r amodau cyfranogiad, neu isgontractwyr arfaethedig, yn gyflenwyr gwaharddedig neu waharddadwy ac yn ystyried a ddylid diystyru'r Ymateb Tendir a gyflwynwyd yn unol â'i rhwymedigaethau o dan y Ddeddf. Os yw'r Cynigydd yn gyflenwr gwaharddedig neu waharddadwy yn rhinwedd person cysylltiedig neu is-gontractwr arfaethedig yn unig, bydd S4C yn hysbysu'r cyflenwr am ei bwriad i ddiystyru ei Ymateb Tendir ac yn rhoi cyfle rhesymol i'r Cynigydd gael rhywun arall yn lle'r person cysylltiedig neu'r is-gontractwr.
- (c) Os bydd S4C oherwydd y broses hon yn diystyru Ymateb Tendir gan gyflenwr gwaharddedig neu waharddadwy neu os bydd yn ymwybodol bod person cysylltiedig neu is-gontractwr wedi'i ddisodli, bydd yn rhoi hysbysiad o'r ffaith hon o fewn 30 diwrnod i'w phenderfyniad i Uned Adolygu Caffael Cymru.

16.3.4 Amodau Cyfranogiad

- (a) Bydd S4C yn diystyru unrhyw Ymateb Tendir gan gyflenwr nad yw'n bodloni'r amodau cyfranogiad.
- (b) Bydd amodau cyfranogiad yn cael eu hasesu ar sail Llwyddo/Methu, oni nodir fel arall. Nodir rhagor o fanylion ynglŷn â'r hyn sy'n gyfystyr â Llwyddo a'r hyn sy'n gyfystyr â Methu yn Holiadur Gwybodaeth y Cynigydd.
- (c) Dylai cynigyddion gyfeirio at yr Holiadur Gwybodaeth y Cynigydd cysylltiedig am yr amodau cyfranogiad llawn.

16.4 Cam 3 - Gwerthuso Datganiad Dull

16.4.1 Bydd pob cwestiwn yn y Datganiad Dull yn cael ei asesu ar sail sgorio.

16.4.2 Bydd pob ardal yn cael sgôr o 0, 1, 2, 3, 4, 5 yn unol â'r fethodoleg asesu ganlynol:

TABL: 1

Sgôr	Categori	Disgrifiad
0	Dim Ymateb/ Gwan iawn	Methwyd â mynd i'r afael â gofynion S4C neu does dim tystiolaeth wedi ei ddarparu i fynd i'r afael â gofynion S4C.
